

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn nos Fawrth, Medi 4ydd

Presennol : Huw Pierce Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is-gadeirydd), Ian Trow, Rhodri Jones, Dewi Jones, Bethan Williams, Catrin Roberts, Heledd Jones, Beryl Hughes Griffiths, Y Cyngorydd Alan Evans a Lis Puw (Clerc)

1095 Cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda Dewi Jones yn ei brofedigaeth ddiweddar, a llongyfarchodd Beryl Hughes Griffiths ar ennill gradd arall yr haf hwn. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Karl Jones a Bethan Edwards.

1096 Derbyniwyd datganiad buddiant ym mater y Clwb Pêl droed oddi wrth Dewi Jones

1097 Croesawyd Mr Alun Price a rhoddodd gyflwyniad ar waith Partneriaeth Penllyn i'r Aelodau. Amlinellodd hanes ffurfio'r Bartneriaeth a'r gwaith sydd wedi ei wneud ers hynny. Dywedodd ei bod yn amser cyffrous iawn ar y Bartneriaeth :

- datblygu gwaith darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd, a fydd yn arwain at gyflogi yn lleol ac apwyntio Clerc Gwaith rhan amser
- Cyngor Gwynedd yn ffurfio Fforwm Ardal gyda'r Bartneriaeth , fydd yn gwneud penderfyniadau ar wario cyllid sylweddol er lles yr ardal
- Y Bartneriaeth yn defnyddio arian grant i greu canolfan i bobl weithio ynddi, i alluogi gwasanaethau fod yn bresennol ar gyfer trigolion Penllyn, ac i ddarparu cyngor ar gyfer y trigolion

Yn dilyn trafodaeth fer, diolchwyd yn gynnes iawn i Mr Alun Price am ei gyflwyniad manwl.

1098 Derbyniwyd fel rhai cywir

- i. Cofnodion Cyfarfod Gorffennaf 3ydd, 2012
- ii. Cofnodion cyfarfodydd brys 22/7/12
- iii. Cofnodion cyfarfod brys 22/8/12

1099 Materion yn codi o gyfarfod mis Gorffennaf a'r cyfarfodydd brys:

1091.2.3 Derbyniwyd ymateb i gŵyn y Cyngor am lythyr uniaith Saesneg o'r Parc Cenedlaethol

1091.3.3 Y Comisiwn Ffiniau – roedd gweddill Cyngorau Cymuned Penllyn wedi ymateb i'r cynigion mewn modd tebyg i Gyngor Llanuwchllyn, ond nid oes ymateb wedi cyrraedd o'r Comisiwn hyd yn hyn.

1094.3 Clo cut y fynwent – mae'r mater wedi ei ddatrys erbyn hyn.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

1094.4 Mae Cyngor Gwynedd wedi trwsio'r wal wrth y toiledau unwaith, ac maent wedi derbyn gwybodaeth am ddifrod pellach i'r wal.

1100 Gohebiaeth:

Gwynedd:

- (1) Dewiswyd Catrin Roberts fel cynrychiolydd y Cyngor i fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards
- (2) Derbyniwyd gwybodaeth am dreiathlon 9/9/12
- (3) Derbyniwyd gwybodaeth am waith cynnal mis Medi
- (4) Derbyniwyd neges y bydd y gwaith ar bont afon Lliw yn cael ei wneud pan fydd llafur ar gael.
- (5) Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun cyfieithu cymunedol
- (6) Derbyniwyd taflen am ffitrwydd yn y gymuned

Parc Cenedlaethol Eryri

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i ganllawiau cynllunio Arallgyfeirio ar Fferm, a Llety Ymwelwyr .
- 2) Derbyniwyd rhestr ddwyieithog o ddyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau'r Parc Cenedlaethol
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth am geisiadau cynllunio:
 - a) Trefechan – derbyn
 - b) Coed y Pry - caniatáu
 - c) Bwch yn Uchaf – gwrthod cais am dystysgrif
- 4) Cytunwyd i gefnogi cais NP5/71/21G, cynllun trydan dŵr Fferm Dolhendre

Un Llais Cymru

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am gynigion i'w trafod yn y Gynhadledd ym mis Hydref
- ii) Derbyniwyd gwybodaeth am grant "Cadwch Gymru'n Daclus", gwybodaeth am sgowtio a gwybodaeth am enwebu ar gyfer anrhydeddau
- iii) Derbyniwyd rhifyn yr Haf o "Y Llais"
- iv) Derbyniwyd a dosbarthwyd copïau o "Canllaw'r Cynghorydd Da 2012"
- v) Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar ddileu'r angen i sieciau cael eu harwyddo gan ddau aelod; cytunwyd mai parhau gydag o leiaf dau yn arwyddo byddai orau.
Gweithredu: Clerc
- vi) Derbyniwyd gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi
- vii) Derbyniwyd gwybodaeth am Baneli Dinasyddion ar gyfer gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- viii) Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad Betsi Cadwaladr. Cytunwyd fel Cyngor i fynegi gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth tu allan i oriau yn ysbyty Dolgellau. Mae'r Cyngor yn falch fod yr ysbyty yn Nolgellau yn cael uwchraddiad ac yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at wella'r ddarpariaeth yno. Cytunwyd i bwysu am wasanaeth ambiwlans 24 awr wedi ei leoli yn Y Bala. Cytunwyd hefyd i fynegi'r angen yn Sir Feirionnydd am ddarpariaeth i'r sawl sy'n dioddef yn ddrwg o ddementia. **Gweithredu: Clerc**
- ix) Derbyniwyd arweiniad Llywodraeth Cymru ar hybu lles y gymuned
- x) Derbyniwyd gwybodaeth am y cynllun Pentre SOS

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Arall:

- 1) Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth y cyfreithwyr Hugh James (Nyrs y fynwent) yn dweud bod y mater o ddigolledi'r Cyngor mewn llaw.
- 2) Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhodd o £100 i Glwb Pêl droed Llanuwchllyn
- 3) Derbyniwyd adroddiad blynyddol Cymdeithas Tai Clwyd
- 4) Derbyniwyd adroddiad Estyn ar Ysgol O M Edwards. Cytunwyd i ysgrifennu i longyfarch yr ysgol ar yr adroddiad ardderchog. **Gweithredu: Clerc**
- 5) Cytunwyd i gefnogi Clwb Pêl droed Llanuwchllyn sy'n ceisio am grant i sicrhau peiriant torri gwair a chut i'w gadw. **Gweithredu: Clerc**

1101 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd Ffurflen Hacker Young a chytunwyd i'w harwyddo gan fod pob peth mewn trefn.
- 2) Derbyniwyd siec ad-daliad Guthrie Jones and Jones
- 3) Derbyniwyd gweddill y praesept.

1102 Materion eraill

- i) Bydd yr is-bwyllgor yn archwilio diogelwch mynwent yr Eglwys 5/9/12
- ii) Diolchwyd i Karl Jones a Rhodri Jones am drwsio'r fainc ar Garth Bach, ac i Mr Dei John Jones am gyfrannu'r styllen.
- iii) Mynegwyd gwerthfawrogiad y cyhoedd o gyfleustra'r toiledau cyhoeddus ac o safon eu glendid.

Gorffen: 9.10pm